Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Hostel Glyn Cynffig |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Gofal Cymdeithasol |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR06 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr |

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Darparu cymorth ar sail hyblyg i bobl â phroblemau Iechyd Meddwl sy'n aros yng Nglyn Cynffig neu sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Gweithio ar sail un wrth un gyda phobl sy'n profi problemau iechyd meddwl, gan eu galluogi i feithrin y sgiliau sy'n angenrheidiol i fyw'n annibynnol.
- Monitro cynnydd ar weithredu cynlluniau unigol, gan gofnodi monitro o'r fath fel sy'n ofynnol.
- Cynorthwyo pobl i gofrestru gyda Meddyg a Deintydd o'u dewis, gan eu cynorthwyo yn ystod eu hymweliadau os bydd angen hynny arnynt neu os byddant yn dymuno hynny.
- Cynorthwyo pobl i gynnal safon uchel o hylendid personol/domestig ac i fod yn ymwybodol o iechyd personol a chael cyngor ar hynny.
- Mynd i raglenni goruchwyliaeth, datblygu staff a rhaglenni hyfforddi fel y cytunwyd arnynt â'ch Rheolwr.
- Cofnodi'r holl drafodion ariannol sy'n berthnasol i Arian Mân, yn unol â Rheoliadau Ariannol.
- Cynorthwyo pobl i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgarwch cymdeithasol/hamdden.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**<u>Iechyd a Diogelwch</u>**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol (lle y bo'n berthnasol)**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Gweithiwr Gofal Cymdeithasol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • FfCCh Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) neu barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant priodol (e.e. gweithio tuag at FfCCh Lefel 3).<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu ofyniad i gofrestru o fewn 6 mis. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Dealltwriaeth neu brofiad o weithio'n agos gyda phobl ym maes iechyd meddwl mewn perthynas â materion personol a chymhleth.<br>• Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnal hawliau cleientiaid: dewis, urddas, cyfrinachedd.<br>• Profiad o roi meddyginiaeth.<br>• Ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn y gweithle.<br>• Gwybodaeth am gymorth cyntaf. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gweithio'n agos gyda phobl mewn perthynas â materion personol a chymhleth, wrth gynnal urddas a hawliau'r unigolion. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu cyfathrebu'n effeithiol – ar lafar/yn ysgrifenedig. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr, tîm amlddisgyblaethol a gweithwyr proffesiynol eraill.<br><br>• Gallu cynnig cymorth i unigolion mewn amrywiaeth eang o leoliadau llety.<br><br>• Dull sensitif o ran anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau.<br><br>• Ymrwymedig a llawn cymhelliant<br><br>• Creadigol, pendant a blaengar.<br><br>• Gallu derbyn cyfarwyddyd.<br><br>• Gallu gweithio'n rhagweithiol.<br><br>• Gallu gweithio ar eich pen eich hun ac fel aelod o dîm.<br><br>• Gallu bod yn hyblyg o ran patrymau gwaith.<br><br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Ydy<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ydy<br><br><br>Ydy<br><br><br><br>Ydy<br><br><br>Ydy | |